# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Mehefin 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwasanaethau lymphoedema sylfaenol sy'n cael eu darparu yng Nghymru. (WAQ26016)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau fod gwasanaethau ar gyfer lymphoedema sylfaenol ar gael yng Nghanol De Cymru ac a wnaiff hi ddatganiad ar hynny. (WAQ26017)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyrsiau addysgol sydd ar gael yng Nghymru i hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol. (WAQ25999)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yng Nghymru. (WAQ26000)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ25986)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pryd y cytunir ar y pris penodedig, y cynllun a'r contract ar gyfer adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ25985)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y diweddariad a roddwyd am y prosiect ar 29 Ionawr 2003 mewn perthynas â llofnodi contract adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ25984)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru enwau'r cwmnïau hynny o'r Unol Daleithiau sydd wedi buddsoddi yng Nghymru, a hynny ar gyfer pob un o'r pum

mlynedd diwethaf. (WAQ26010)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa Fuddsoddi Mewnol y llwyddwyd i'w ddenu i Gymru o'r Unol Daleithiau ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf . (WAQ26011)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y staff sy'n gweithio ym mhob un o swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau. (WAQ26012)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y staff sy'n gweithio ym mhob un o swyddfeydd Awdurdod Datblygu Cymru yn yr Unol Daleithiau, a hynny ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ26013)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth sydd ar gael i fusnesau sydd ar fin cychwyn yn y sector manwerthu, neu sydd eisoes yn gweithredu yn y sector hwnnw. (WAQ26014)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa wahaniaeth sy'n cael ei arddel rhwng manwerthwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n gweithredu dros y rhyngrwyd a'r rhai sy'n gweithredu yn y sector manwerthu traddodiadol . (WAQ26015)